**Cyfeirnod y Pwyllgor: FIN(4) 01-13 – Papur 2**

# Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar agweddau ariannol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

**Papur i'w nodi: Memorandwm Ariannol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y papur** | **16 Ionawr 2013** |

**Gwybodaeth Berthnasol**

**Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)** (fel y'i cyflwynwyd)

**Y Memorandwm Esboniadol i'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)**

Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)**; daeth i ben ym mis Medi 2012.

**Paratowyd y nodiadau briffio hyn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w defnyddio gan y Pwyllgor Cyllid.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Kerry Dearden o'r Gwasanaeth Ymchwil drwy ffonio estyniad 8638.**
**E-bost: kerry.dearden@cymru.gov.uk**

Research Service

## 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd *y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (o hyn ymlaen 'y Bil')* gerbron y Cynulliad ddydd Llun 3 Rhagfyr 2012. Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried **egwyddorion cyffredinol** y Bil ac yn cyflwyno adroddiad arnynt erbyn 22 Mawrth 2013.

## 2. Nodau a chynnwys

Dyma brif amcanion y Bil:

- Cynyddu nifer y rhoddwyr organau drwy gyflwyno system feddal o optio allan;
- Gwneud darpariaethau ynghylch beth yw cydsyniad;
- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu er mwyn gwella iechyd pobl Cymru;
- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cydsyniad tybiedig;
- Diwygio *Deddf Meinweoedd Dynol 2004*.

Mae'r Bil yn berthnasol i bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn, sydd â'r galluedd meddyliol i ddeall y gellid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi, sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod o chwe mis o leiaf cyn iddynt farw,[1] ac sy'n marw yng Nghymru.[2]

Bydd y Bil yn rhoi cyfle i bobl ddatgan penderfyniad (**cydsyniad datganedig**), sef dewis rhoi neu beidio â rhoi organau, drwy roi eu henwau ar gofrestr; os na fyddant yn cymryd unrhyw gamau, er iddynt gael y cyfle i wneud hynny, **ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi**. Gan mai system feddal o optio allan a fyddai'n cael ei chyflwyno, bydd unigolyn sydd â pherthynas gymhwysol[3] â'r unigolyn sydd wedi marw yn rhan o'r broses benderfynu. Bydd dymuniadau'r ymadawedig, p'un a gawsant eu cyfleu drwy gyfrwng cydsyniad tybiedig neu ddatganedig, yn cael eu datgan i unigolyn sydd mewn perthynas gymhwysol fel rhan o'r trafodaethau.

Mae'r Bil yn cyflwyno'r cysyniad o gydsyniad tybiedig, ac felly mae'n ailddatgan, ar gyfer Cymru, rai adrannau o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chydsyniad at ddibenion trawsblannu. Nid yw'r Bil yn effeithio ar y gyfraith sy'n ymwneud â darpariaethau Deddf 2004 nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chydsyniad, ac felly nid ydynt wedi'u hailddatgan gan y byddant yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru.

Ni fydd y Bil yn newid y trefniadau presennol gyda gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, ac felly bydd Cymru yn parhau i rannu rhestr aros am drawsblaniadau â gweddill y DU, a bydd organau'n cael eu dyrannu ar sail yr angen clinigol a chan ystyried a oes unigolyn sy'n addas i gael yr organ.

Bydd Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG yn cael ei hailddatblygu fel y gall ddarparu ei swyddogaethau presennol i bobl y tu allan i Gymru, ac fel y gall roi'r cyfle i bobl yng Nghymru ddatgan eu dymuniad o blaid neu yn erbyn rhoi organau (gan gynnwys rhoi rhai organau yn unig).

[1] Mewn achosion lle nad oedd yr ymadawedig yn byw yng Nghymru, byddai Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG yn cael ei harchwilio a gweithdrefnau'n cael eu dilyn yn unol â hynny. Os nad yw'r ymadawedig wedi byw yng Nghymru am gyfnod o chwe mis o leiaf, bydd y gofrestr newydd a Chofrestr Rhoddwyr Organau y GIG yn cael eu harchwilio i gadarnhau a oedd yr ymadawedig wedi datgan dymuniad.
[2] Os bydd pobl sy'n byw yng Nghymru yn marw yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, bydd staff y GIG yn edrych ar y gofrestr newydd a bydd gweithdrefnau'n cael eu dilyn yn unol â hynny. Ni fyddai cydsyniad tybiedig yn gymwys y tu allan i Gymru.
[3] Nodir yn adran 17(2) y Bil y mathau o berthnasau cymhwysol.

## 3. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ystyried **un dewis polisi**: cyflwyno yng Nghymru system feddal o optio allan yng nghyswllt rhoi organau a meinweoedd pobl sydd wedi marw.

### *Costau*

Mae'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u rhannu'n ddau gategori bras:

- **Costau sefydlog sy'n gysylltiedig â sefydlu'r system –** mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan mai costau seilwaith yw'r rhain (newidiadau busnes a newidiadau i systemau; prosesu ceisiadau i beidio â bod yn rhan o'r system; cyfathrebu â'r cyhoedd; a gwerthuso), er mwyn gweithredu system feddal o optio allan yng nghyswllt rhoi organau. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif mai tua **£8 miliwn** fydd y costau (sydd â gostyngiad o 3.5 y cant dros 10 mlynedd), ac yn nodi mai **Llywodraeth Cymru a fydd yn eu talu.** Mae bron 40 y cant o'r costau hyn (£2.9 miliwn) yn gysylltiedig â chyfathrebu, ac mae ychydig dros 30 y cant (£2.5 miliwn) yn gysylltiedig â newidiadau o ran TG.
- **Costau newidiol –** mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y bydd costau yn gysylltiedig â thynnu organau o bobl sydd wedi marw a thrawsblannu'r organau hyn. Bydd y costau hyn yn amrywio yn ôl y math o organ. Dim ond yr arennau, yr iau, y galon, a'r ysgyfaint y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn eu hystyried, gan mai'r rhain yw'r organau a gaiff eu trawsblannu fwyaf aml. Bydd y costau'n cael eu talu yn rhannol gan y GIG yng Nghymru, a hynny o fewn adnoddau presennol Byrddau Iechyd Lleol, ac yn rhannol o fewn grant Llywodraeth Cymru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- **Costau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil –** mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan nad yw rhai costau wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad gan ei bod yn debygol y byddant yn gymharol fach, ac y byddent yn cael eu talu gan ddefnyddio grant Llywodraeth Cymru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Mae'r costau hyn yn gysylltiedig â thynnu, storio a chludo unrhyw organau ychwanegol y mae'n bosibl y byddent yn cael eu tynnu o ganlyniad i fabwysiadu system feddal o optio allan**.**

### *Manteision blynyddol*

Mae'r manteision ariannol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u rhannu'n ddau gategori:

- **Gwelliannau i ansawdd bywyd (Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (BBAA)) –** mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod cleifion sy'n cael trawsblaniadau yn elwa drwy fyw yn hirach a chan fod ansawdd eu bywyd yn gwella; rhoddir gwerth o £60,000 ar y budd hwn fesul blwyddyn ychwanegol o iechyd perffaith[4]. Mae'r dull BBAA yn pwysoli blynyddoedd bywyd (a ddiogelwyd neu a gollwyd) yn ôl yr ansawdd bywyd a gafwyd yn y blynyddoedd hynny.[5] Wrth gyfrifo'r Gwerth Presennol Net, mae pwysoli'r blynyddoedd bywyd yn ôl ansawdd yn adlewyrchu'r ffaith y byddai cael blynyddoedd o iechyd da yn fwy gwerthfawr na chael blynyddoedd o iechyd drwg, e.e. yn achos unigolyn sy'n cael trawsblaniad arennol mae'r budd blynyddol yn cyfateb i bedair blwyddyn a addaswyd yn ôl ansawdd o'i gymharu â chlaf sy'n cael triniaeth dialysis, sef £240,000 o fudd bob blwyddyn.[6]

---

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Memorandwm Esboniadol paragraff 127 [fel ar 10 Rhagfyr 2012]
[5] Ibid Atodiad 3
[6] Ibid Atodiad 2a

- **Arbedion a geir drwy beidio â rheoli cyflyrau yn feddygol** – mae'r rhain yn amrywio fesul organ: o £22,000 o arbedion y flwyddyn mewn perthynas â rheoli anhwylder ar y galon yn feddygol i £306,000 o arbedion yng nghyswllt dialysis arennol. [7]

*Gwerth Presennol Net*

Mae Atodiadau 2a-2d yn dangos Gwerth Presennol Net, dros gyfnod gwerthuso o 10 mlynedd, un trawsblaniad ychwanegol fesul prif organ, gan ystyried y buddion blynyddol net, gyda gostyngiad o 3.5 y cant (1.5 y cant yn achos BBAA).[8]

Yn Atodiad 2e o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ceir tabl cryno sy'n dangos Gwerth Presennol Net newidiadau penodol yn nifer y trawsblaniadau. **Dengys y tabl fod cael hyd yn oed un rhoddwr ychwanegol yn unig yn ychwanegu £3 miliwn at y Gwerth Presennol Net.**[9]

*Y Prif Faterion*

**Ni ellir cyfrifo effaith ariannol net y Bil yn fanwl gywir oherwydd yr anhawster o ran rhagamcanu newidiadau yn niferoedd yr organau a roddir.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn tybio y bydd y Bil yn cynyddu nifer y rhoddwyr, felly ni chynhwysir ystyriaeth o'r hyn a fyddai'n digwydd pe bai'r Bil yn lleihau nifer y rhoddwyr (er bod y goblygiadau ariannol wedi'u modelu yn yr Atodiadau).

- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan, o'r costau sefydlog o £8 miliwn, **mai costau datblygu'r system, sef £2.5 miliwn, sy'n peri'r ansicrwydd mwyaf.**[10]
- Mae cyfanswm yr arbedion a ragamcanir yn dibynnu ar y gwerth a roddir ar bob blwyddyn ychwanegol o iechyd perffaith ar ôl cael llawdriniaeth drawsblannu. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys dadansoddiad sy'n dangos ystod o werthoedd, sef rhwng £20,000 a £60,000 fesul blwyddyn bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd. Hyd yn oed os rhoddir gwerth o £20,000 ar y flwyddyn bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos **y byddai'r costau'n cael eu hadennill ar ôl cael dau roddwr ychwanegol yn unig y flwyddyn**.
- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod ei bod yn debygol y gallai cyfradd fawr (hyd at 70 y cant) o unrhyw organau ychwanegol a roddir gan breswylwyr yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno system feddal o optio allan gael eu rhoi i breswylwyr mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan, pe bai'r buddion yn cael eu cyfrifo **ar sail Cymru yn unig** (hynny yw, gan gymryd bod 30 y cant yn cael ei hawlio), **ni fyddai hynny'n cael unrhyw effaith o bwys ar nifer y rhoddwyr** y mae eu hangen er mwyn i system o optio allan adennill ei chostau, hynny yw, byddai'r costau'n dal yn cael eu hadennill ar ôl cael dau roddwr ychwanegol.[11]

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), **Memorandwm Esboniadol** Atodiad 2a – 2d [fel ar 12 Rhagfyr 2012]

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), **Memorandwm Esboniadol**. Mae paragraff 110 yn datgan y defnyddiwyd cyfradd gostyngiad Trysorlys Ei Mawrhydi, sef 3.5 y cant, ac eithrio wrth amcangyfrif buddion BBAA, pan ddefnyddiwyd 1.5 y cant, fel yr argymhellir gan Adran Iechyd y DU. [fel ar 12 Rhagfyr 2012]

[9] Ibid Atodiad 2e

[10] Ibid paragraff 131

[11] Ibid paragraff 130